



**ARIENNIR GAN Y
LOTERI GENEDLAETHOL
NATIONAL
LOTTERY FUNDED**



Rheolwr Prosiectau, rhan amser, yn gweithio o gartref yn Ne Cymru

Ymddiriedolaeth Cranfield yw ymgynghoriaeth rheoli pro bono fwyaf blaenllaw y DU ar gyfer elusennau.

Ers mwy na 25 mlynedd, rydyn ni wedi cefnogi miloedd o elusennau gyda phrosiectau ymgynghoriaeth teilwredig, i'w helpu i fod yn gryfach, yn fwy cynaliadwy ac i lwyddo wrth ddarparu gwasanaethau hanfodol i bobl agored i niwed.

Rydym yn chwilio am Reolwr Prosiectau medrus ac annibynnol i ymuno â'n tîm. Yn gweithio o gartref yn Ne Cymru, mae'r rôl hyblyg, pedwar diwrnod yma'n ddatblygiad newydd i'r Ymddiriedolaeth. Fel Rheolwr Prosiectau cyntaf yr Ymddiriedolaeth yng Nghymru, bydd y swydd yn sefydlu gwasanaeth Ymddiriedolaeth Cranfield yng Nghymru, yn codi ein proffil ac yn ennyn diddordeb yn ein gwaith ymhlith mudiadau gwirfoddol a gweithwyr busnes proffesiynol. Bydd y rôl yn cynnwys gweithio gydag elusennau unigol ac ymgynghorwyr gwirfoddol i ddewis a goruchwyllo prosiectau ymgynghoriaeth pro bono, cadw at amserlenni a chyrraedd targedau, a chynrychioli'r Ymddiriedolaeth mewn digwyddiadau sector gwirfoddol a gyda sefydliadau partner a chyllidwyr.

Os ydych chi'n weithiwr rheoli proffesiynol medrus sydd â diddordeb mawr yn y sector gwirfoddol, ac a fyddai'n mwynhau gweithio gydag elusennau lleol ysbrydoledig a gwirfoddolwyr busnes brwd, ewch ati i gael mwy o wybodaeth am y cyfle hwn ac i wneud cais ar-lein.

Rôl: Rheolwr Cymru

Yn atebol i: Rheolwr Gweithrediadau

Prif Bwrpas y Rôl:

Sefydlu a datblygu Ymddiriedolaeth Cranfield yng Nghymru, codi proffil yr Ymddiriedolaeth i ysgogi galw am gefnogaeth gan elusennau, a recriwtio a chydlynu gweithwyr busnes proffesiynol fel ymgynghorwyr gwirfoddol.

Cynrychioli'r Ymddiriedolaeth gyda'r holl randdeiliaid yng Nghymru, a dewis a datblygu cyfleoedd i sefydlu gweithrediadau'r Ymddiriedolaeth yng Nghymru.

Amcanion Allweddol

Datblygu proffil a gwaith yr Ymddiriedolaeth yng Nghymru i gyrraedd targedau gweithgarwch y cytunwyd arnynt

Sefydlu a meithrin perthnasoedd cadarnhaol gyda sefydliadau partner, y llywodraeth a rhanddeiliaid eraill yng Nghymru

Recriwtio a chydlynu corff gwirfoddol cadarn o weithwyr rheoli proffesiynol sydd â'r sgiliau priodol

Trefnu prosiectau gydag elusennau a gwirfoddolwyr

Prif Gyfrifoldebau

Datblygu a Chynrychioli'r Ymddiriedolaeth yng Nghymru

- Gweithio gyda chyrrff a rhwydweithiau'r sector gwirfoddol i godi proffil yr Ymddiriedolaeth ac i hybu ei gwasanaethau ymhlith elusennau a mudiadau dielw eraill

- Adnabod materion rheoli allweddol yn y sector gwirfoddol yng Nghymru a sicrhau bod gwasanaeth yr Ymddiriedolaeth yn berthnasol
- Adnabod cyfleoedd i'r Ymddiriedolaeth gyfrannu at sefydliadau yng Nghymru a gweithio mewn partneriaeth â hwy
- Cyfrannu at sylfaen wybodaeth ac adroddiadau cyffredinol yr Ymddiriedolaeth, drwy gasglu gwybodaeth am waith yng Nghymru a'i dadansoddi

Recriwtio a Chydlynu Gwirfoddolwyr

- Dewis sefydliadau a rhwydweithiau sy'n gallu helpu i ddenu a recriwtio gwirfoddolwyr sydd â sgiliau priodol
- Recriwtio a chyfathrebu â gwirfoddolwyr i greu perthnasoedd da a rhwydwaith
- Rheoli gwirfoddolwyr wrth ddarparu ein gwasanaethau

Rheoli Prosiectau

- Gweithio gyda chleientiaid elusennol i gwmpasu prosiectau ac i baratoi briffiau prosiectau
- Dewis, briffio, lleoli a rheoli gwirfoddolwyr priodol
- Monitro a chefnogi prosiectau sydd ar droed
- Casglu adborth a gweithredu ynghylch materion sy'n codi o brosiectau
- Cyfrannu at ddadansoddi gweithgarwch cyffredinol prosiectau ac adroddiadau a gwybodaeth a gynhrychir gan yr Ymddiriedolaeth

Prif Gysylltiadau

Mewnol

Rheolwr Gweithrediadau
Cydlynnydd Prosiectau
Prif Weithredwr
Rheolwr Marchnata

Allanol

Elusennau
Cyrff a grwpiau'r sector gwirfoddol
Ymgynghorwyr Gwirfoddol / Gweithwyr Busnes Proffesiynol
Cyfranwyr a Chyllidwyr

<p>Profiad</p> <ul style="list-style-type: none"> Datblygu busnes Profiad sefydlu Ymgynghoriaeth rheoli Rheoli prosiectau Sefydlu a datblygu perthnasoedd Rheoli a datblygu rhaglenni gwaith Defnyddio system CRM, yn ddelfrydol Salesforce 	<p>Hanfodol Dymunol Dymunol Hanfodol Hanfodol Hanfodol Dymunol</p>
<p>Gwybodaeth a Chymwysterau</p> <ul style="list-style-type: none"> Arbenigedd rheoli cynhwysfawr a chadarn Rhywfaint o wybodaeth am y sector gwirfoddol Deall materion rheoli mewn sefydliadau llai 	<p>Hanfodol Dymunol Dymunol</p>
<p>Sgiliau / Cymwyseddau</p> <ul style="list-style-type: none"> Sgiliau meithrin perthynas a rhyngpersonol rhagorol Meddwl yn strategol ac yn gallu casglu ac asesu gwybodaeth ar sail sector cyfan 	<p>Hanfodol Hanfodol</p>

<p>Cyfathrebwr eithriadol ar lefel unigol a grŵp, cyfathrebu ysgrifenedig ac ar lafar</p> <p>Sgiliau dylanwadu a chyflwyno effeithiol</p> <p>Ffocws cryf ar y cleient ac ar wasanaeth</p> <p>Meddwl dadansoddol gyda sgiliau casglu a dadansoddi data rhagorol</p> <p>Gallu a pharodrwydd i ymgymryd â thasgau gweinyddol, rheoli gwybodaeth yn effeithiol a diweddarau systemau</p> <p>Deall systemau TG, parodrwydd i weithio gyda systemau'r Ymddiriedolaeth, a medrus wrth weithio yn MS office</p>	<p>Hanfodol</p> <p>Hanfodol</p> <p>Hanfodol</p> <p>Dymunol</p> <p>Hanfodol</p> <p>Hanfodol</p>
<p>Ymddygiad (gan gynnwys amgylchiadau)</p> <p>Hunangymhelliant a gallu gweithio'n annibynnol, pennu a chyrraedd targedau a nodau personol</p> <p>Gallu cadw at ddyddiadau cau a gweithio heb gynhyrfu o dan bwysau</p> <p>Penderfynol ac ymrwymiad i safonau uchel</p> <p>Da am gydnabod a diolch i bob cyswllt a rhanddeiliad – gan adlewyrchu ethos yr Ymddiriedolaeth</p>	<p>Hanfodol</p> <p>Hanfodol</p> <p>Hanfodol</p> <p>Hanfodol</p>